OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 442

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020

### RHAN 1

### Cyffredinol

**Rhyngweithio â rheolau sefydlog etc.**

**3.**—(1) Mae'r ddarpariaeth a wneir yn y Rheoliadau hyn yn gymwys ni waeth am unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir yn y rheolau sefydlog, y trefniadau gweithrediaeth neu unrhyw reolau eraill sydd gan awdurdod lleol.

(2) I'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth mewn rheolau sefydlog, trefniadau gweithrediaeth neu reolau eraill awdurdod lleol yn anghydnaws ag unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn, nid yw'n cael unrhyw effaith tra bo'r ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn yn cael effaith.